Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru

Disgrifiad o'r swydd

Swydd:	**Swyddog Data (Mae'r gallu i weithio yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon)**
Lleoliad:	Swyddfeydd Data Cymru, Caerdydd
Cyflog:	Gradd 3 - £21,235 - £26,470
Math o Gontract:	Dros dro (tan 31 Mawrth 2020 i ddechrau)

Cefndir

Fel sefydliad, rydym yn darparu amrediad o gefnogaeth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid. Ffocws ein gwaith yw helpu gwasanaethau cyhoeddus i weithio'n well drwy ddefnyddio data'n ddoeth.

Y swydd

Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu penodi Swyddog Data a fydd yn cefnogi'n gwaith ar draws amrediad llawn ein busnes. Bydd y sawl a benodir yn rhan hanfodol o'r tîm, gan weithio o fewn ein swyddogaeth rheoli data a chefnogi ystod o gasgliadau data ar draws rhychwant ein busnes.

Bydd y swydd yn addas ar gyfer unrhyw un sydd â:

- chefndir ym maes data;
- sgiliau mathemategol a thechnegol cryf; a
- llygad graff am fanylion.

Mae'r gallu i weithio yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Swyddogaethau'r swydd hon

Bydd y Swyddog Data yn cyflawni'r canlynol:

- Cynllunio a chyflwyno amrediad o gasgliadau data;
- Cefnogi datblygiad canllawiau perthnasol;
- Ymgymryd â gwaith dilysu data;
- Paratoi data i'w storio yn ein storfa;
- Paratoi a chynnal metadata priodol;
- Paratoi data i'w ledaenu fel y bo'n briodol;
- Sicrhau bod y data rydym yn ei gynhyrchu o'r ansawdd uchaf; a
- Chynnal unrhyw dasgau perthnasol eraill yn ôl yr angen.

Cymwyseddau technegol

Bydd sgiliau technegol cryf o fantais ar gyfer y swydd hon. Mae'r sgiliau gofynnol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Sgiliau cryf yn nefnydd cyfres cynhyrchion MS Office;
- Dealltwriaeth gryf o alluoedd MS Excel;

- Profiad o ddefnyddio cymwysiadau seiliedig ar y we;
- Profiad o ddefnyddio cronfeydd data er mwyn storio, trin a thrafod data;
- Llygad am fanylion a chywirdeb yn y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu;
- Rhaid gallu cyfathrebu gwybodaeth yn gywir, yn ddiogel ac yn eglur – ar lafar ac yn ysgrifenedig a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Byddai profiad o ddefnyddio VBA, SQL, SPSS a/neu Python yn fantais; a
- Byddai gradd berthnasol gydag elfen o ddata a/neu ystadegau ffurfiol, neu feddu ar brofiad perthnasol, yn fantais.

Yr hyn y gallwn ei gynnig

Rydym yn sefydliad dysgu sydd ag ymrwymiad i ddysgu a datblygu. Rydym yn gwerthfawrogi'n pobl ac mae hynny'n dangos. Mae'r mwyafrif o'n staff gyda ni ers mwy na deng mlynedd. Rydym wedi cadw'n statws Buddsoddwyr mewn Pobl ers iddo gael ei ddyfarnu'n gyntaf yn 2001.

Gweithredwn gynllun gweithio hyblyg sy'n rhoi'r cyfle i'n gweithwyr fod yn hyblyg o ran eu gwaith ar yr un pryd â sicrhau bod anghenion y busnes a'n cwsmeriaid yn cael eu diwallu.

Yr hyn a ddisgwyliwn gennych chi

Gyda hyblygrwydd fe ddaw gyfrifoldeb. Disgwyliwn i'n staff fod yn gryf eu cymhellant a'u hymrwymiad at ein gwaith ni.

Diddordeb o hyd?

Am ragor o wybodaeth, neu i drafod y cyfle hwn, cysylltwch â Richard Palmer, Pennaeth Adnoddau Dynol ar 029 2090 9500 neu e-bostiwch richard.palmer@data.cymru.

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch gopi o'ch CV gyda llythyr sy'n esbonio'n fanwl sut rydych yn bodloni gofynion y swydd at Richard i gyrraedd erbyn **canol dydd ar 10 Medi 2018** fan bellaf. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ar **28 Medi 2018**. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer fod yn bresennol am y diwrnod cyfan.